# Eich casgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu




Merthyr Tudful yn ailgylchu
Merthyr Tydfil recycles

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

 At ddefnydd swyddfa yn unig: 03/2026

# Eich casgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu

Er mwyn eich helpu i gael gwared ar eich gwastraff o'ch cartref mewn ffordd gyfrifol, rydym yn darparu cynwysyddion ar wahân i chi sortio eich ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu sydd dros ben.

## Bob wythnos, rydym yn casglu:

- eich **gwastraff bwyd** o'ch **cadi glas**,
- eich **caniau, tuniau, aerosolau a ffoil metel** a **photeli, potiau, thybiau a thiwbiau plastig** o'ch **sach las ailddefnyddiadwy**,
- eich **poteli a jariau gwydr** o'ch **Focs Ailgylchu du neu werdd 3**,
- eich **cardfwrdd** o'ch **Focs Ailgylchu du neu werdd 2**,
- eich **papur** o'ch **Focs Ailgylchu du neu werdd 1**,
- eich **batris o'r cartref** mewn **bagiau porffor untro a ddarperir gan y cyngor**,
- eich **eitemau trydanol bach** ym **magiau plastig eich hun**, ac
- eich **tecstilau** ym **magiau plastig eich hun**.

## Bob pythefnos, rydym yn casglu:

- eich **gwastraff gardd** o'ch **sach werdd ailddefnyddiadwy**, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd, ac
- eich **gwastraff na ellir ei ailgylchu** sy'n weddill o'ch **bin olwyn du**.



I wirio eich dyddiadau casglu, sganiwch y **cod QR**, ewch i'n gwefan **www.merthyr.gov.uk/ailgylchu** neu **cysylltwch â ni**.

# Pam ddylwn i sortio ac ailgylchu fy ngwastraff?

## Arbed ynni ac achub ein planed

Mae ailgylchu ein gwastraff i greu eitemau newydd yn defnyddio llawer llai o ynni na defnyddio deunyddiau newydd (neu ddeunyddiau 'crai'). Mae hyn yn helpu i leihau ein hallyriadau carbon ac yn helpu i atal newid hinsawdd.



## Gwella ansawdd ailgylchu

Mae casglu eich ailgylchu mewn cynwysyddion ar wahân, wedi'u sortio'n barod, yn gwella ansawdd y deunyddiau rydyn ni'n eu casglu gennych chi. Mae hyn yn golygu y bydd mwy ohono'n aros o fewn y Deyrnas Unedig i'w ailgylchu i greu nwyddau newydd – yn hytrach na'i anfon dramor – sy'n well i'r amgylchedd.



## Gwneud arbedion

Pan fydd pobl yn rhoi deunyddiau y mae modd eu hailgylchu yn eu bin olwyn du, rydym yn talu mwy i gael gwared ar yr eitemau hynny y gellid bod wedi'u hailgylchu. Mae hyn yn golygu bod llai o arian gennym i'w wario ar wasanaethau pwysig eraill.



## Cyrraedd targedau ailgylchu

Mae ein gwasanaethau casglu yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at ein helpu i gyrraedd y targed cenedlaethol o ailgylchu 70% o'n holl wastraff. Ar hyn o bryd rydym yn ailgylchu 66% o'n gwastraff (2024/25). Os na fyddwn ni'n cyrraedd y targed ailgylchu, fe allen ni orfod talu dirwy.



# Sut ddylwn i gyflwyno fy ailgylchu a gwastraff i chi ei gasglu?

1. Rhoi'r eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir. (Gweler tudalennau 5 i 16 am 'beth sy'n mynd i ble?')

2. Clymu bagiau leinio eich cadi gwastraff bwyd a'ch bagiau plastig yn ddiogel.

3. Cau'r fflapiau a'r caeadau ar eich cynwysyddion i atal eu cynnwys rhag dianc ac i gadw pethau mor sych â phosibl.

4. Defnyddio dim ond y cynwysyddion a roddwyd gan y Cyngor ar gyfer eich ailgylchu. Defnyddiwch eich bagiau plastig untro eich hun yn unig ar gyfer unrhyw eitemau trydanol bach neu decstilau y mae angen i chi eu rhoi allan i'w hailgylchu.


5. Rhoi'ch cynwysyddion yn eich man casglu'r noson cyn 7yb ar eich diwrnod casglu, gan wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n blocio'r palmant na'r stryd.

6. Casglu'ch cynwysyddion o'ch man casglu unwaith y byddwn wedi casglu eu cynnwys.

## Sut alla i gael mwy o gefnogaeth?

**Cysylltwch â ni i gael gwybod:**

- sut i archebu cynhwysydd newydd neu yn lle hen un
- eich dyddiau a dyddiadau casglu
- beth arall y gallwch ac na allwch ei ailgylchu
- pa gymorth neu wasanaethau ychwanegol eraill y gallwn eu rhoi i chi i'ch helpu i sortio'ch gwastraff ac ailgylchu'n gywir.



**Rydym yma i helpu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.**

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff bwyd



**Cadi glas**



### ✔ Ia, plîs

- ✔ Hen fagiau te a choffi
- ✔ Plisg wyau
- ✔ Crwyn ffrwythau a llysiau
- ✔ Cig a physgod amrwd ac wedi'u coginio, yn cynnwys esgyrn a chregyn
- ✔ Bwyd sydd ar ôl ar blât
- ✔ Hen fara
- ✔ Bwyd dros ben na ellir ei storio'n ddiogel i'w fwyta'n nes ymlaen
- ✔ Bwyd nad yw'n ddiogel i'w fwyta mwyach
- ✔ Bwyd anifeiliaid

### Cofiwch:

- Os oes angen mwy o fagiau leinio cadi gwastraff bwyd arnoch, clymwch un i handlen eich cadi awyr agored ar eich diwrnod casglu, ac fe wnawn ni adael rholyn newydd ar neu wrth ymyl eich cadi. Gallwch hefyd eu harchebu ar-lein neu eu casglu o adeiladau'r cyngor

### ✘ Dim diolch

- ✘ Deunydd pacio o unrhyw fath
- ✘ Hylifau fel llefrith *
- ✘ Olewau neu frasterau hylifol **
- ✘ Unrhyw ddeunydd nad yw'n wastraff bwyd
- ✘ Podiau coffi ***

* Gallwch arllwys symiau bach o fwyd hylifol neu ddiodydd i lawr y sinc, yn ddelfrydol gydag ychydig bach o ddŵr i sicrhau bod y gwastraff yn llifo i ffwrdd yn hawdd, heb flocio'r beipen.

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol mewn cynhwysydd addas.

*** Rhowch yr eitemau hyn yn eich sach las gyda'ch metelau a'ch plastigion.

Rydym yn casglu eich **gwastraff bwyd** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Metelau a phlastigion



**Sach las ailddefnyddiadwy**




- **Caniau, tuniau, aerosolau a ffoil metel**
- **Poteli, potiau, thybiau a thiwbiau plastig**

### ✔ Ia, plîs

**Metelau**

- ✔ Caniau diodydd, fel y rhai sy'n dal cwrw a diodydd meddal
- ✔ Tuniau bwyd, fel y rhai sy'n dal ffa a chawl
- ✔ Tuniau siocled a bisgedi metal, a'u caeadau
- ✔ Caniau aerosol gwag
- ✔ Ffoil glân yn cynnwys tybiau

**Cofiwch:**

- tynnwch unrhyw gaeadau ffilm plastig (gweler tudalen 16)
- gwagio, rinsio a gwasgu eitemau metal a phlastig
- gwneud yn siŵr bod erosolau'n wag
- gwneud yn siŵr bod ffoil yn lân
- caewch y fflap ar eich sach i atal ei gynnwys rhag dianc

### ✘ Dim diolch

**Metelau**

- ✘ Cartonau, fel Tetra Pak *
- ✘ Pecynnau creision **
- ✘ Deunydd lapio losin ffoil **
- ✘ Pecynnau ffoil wedi'i lamineiddio sy'n dal bwyd a diod, fel y rhai sy'n dal coffi, sudd, reis, bwyd babanod neu fwyd anifeiliaid anwes **
- ✘ Potiau, sosbenni neu gyllyll a ffyrc metal ***
- ✘ E-sigaréts neu fêps a'u batris ***
- ✘ Nodwyddau neu chwistrellau esthetig neu glinigol ****

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich Bocs Ailgylchu 2 du neu werdd gyda'ch cardfwrdd.

** Os oes angen i chi gael gwared ar yr eitemau hyn, gweler tudalen 16.

*** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

**** Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol, nyrs gymunedol neu ddarparwr gofal iechyd i drefnu casgliad gwastraff clinigol ar gyfer yr eitemau hyn.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Metelau a phlastigion, parhad...



### ✔ Ia, plîs

**Plastigion**

- ✔ Poteli gofal croen a nwyddau ymolchi plastig, fel y rhai sy'n dal hylif golchi dwylo, hylif ymolchi'r corff, gel cawod, siampŵ, cyflyrydd gwallt a swigod bath
- ✔ Tiwbiau plastig, fel tiwbiau past dannedd
- ✔ Poteli nwyddau glanhau plastig, fel y rhai sy'n dal hylif glanhau, hylif golchi llestri a hylif golchi dillad, a thybiau sy'n dal podiau a thabledi golchi dillad
- ✔ Poteli diodydd plastig, fel y rhai sy'n dal diodydd meddal, llefrith a dŵr
- ✔ Potiau plastig, fel potiau hufen ac iogwrt
- ✔ Tybiau plastig, fel tybiau menyn, marjarîn, siocled, losin a hufen iâ
- ✔ Tybiau plastig, fel y rhai sy'n dal cacennau, myffins a chig
- ✔ Potiau plastig, fel potiau ffrwythau a llysiau
- ✔ Tybiau a chaeadau tecawê plastig
- ✔ Poteli plastig o'ch garej, tŷ gwydr neu sied, fel poteli bwyd planhigion hylifol diwenwyn

### ✘ Dim diolch

**Plastigion**

- ✘ Bagiau neu ddeunydd lapio plastig (gweler tudalen 16)
- ✘ Rhwydi pecynnau ffrwythau neu lysiau *
- ✘ Bagiau bwyd sych cathod neu gŵn *
- ✘ Bagiau compost neu bridd garddio *
- ✘ Pecynnau swigod, hynny yw, y pecynnau plastig a ffoil sy'n dal tabledi neu gapsiwlau *
- ✘ Brwsys dannedd *
- ✘ Raseli plastig *
- ✘ Plastigion caled, fel cadeiriau gardd, teganau plant, powlenni golchi llestri, potiau blodau neu dybiau 'Tupperware' **
- ✘ Tanwyr neu ganiau nwy ***

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin olwyn du.


** Os yw eich eitemau mewn cyflwr da, gallech eu rhoi i'ch siop elusen leol. Os ydyn nhw wedi torri, ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol, neu rhowch nhw yn eich bin olwyn du. Lapiwch yr eitemau hyn yn ddiogel mewn hen bapur newydd neu bapur cegin, neu eu bagio'n ddwbl, i wneud yn siŵr na chaiff criwiau casglu eu hanafu wrth eu casglu.

** Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

Rydym yn casglu eich **metelau a phlastigion** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Poteli a jariau gwydr



**Bocs Ailgylchu du neu werdd 3**




### Ia, plîs

- ✔ Poteli gwydr, fel y rhai sy'n dal cwrw, gwin a diodydd meddal
- ✔ Jariau gwydr, fel y rhai sy'n dal bwyd babanod a sawsiau
- ✔ Poteli a jariau gwydr nad ydynt yn dal bwyd a diod, fel y rhai sy'n dal persawr, persawr eillio ac eli wyneb

### Cofiwch:

- gwagio a rinsio eich eitemau gwydr
- tynnu unrhyw gaeadau metal neu blastig a rhoi'r rhain yn eich sach las ailddefnyddiadwy ar gyfer eich metelau a phlastigion
- gosodwch y caead 'cap cawod' ar eich bocs i atal ei gynnwys rhag dianc

### Dim diolch


- ✘ Llestri neu tseinia *
- ✘ Gwydrau yfed *
- ✘ Bylbiau golau
- ✘ Gwydr gwastad, fel ffenestri *
- ✘ Drychau *
- ✘ Offer coginio gwydr, fel Pyrex *
- ✘ Platiau microdon
- ✘ Fasau *
- ✘ Poteli paent ewinedd
- ✘ Gwydr wedi torri

* Os yw eich eitemau mewn cyflwr da, rhowch nhw i'ch siop elusen leol. Os ydyn nhw wedi torri, ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol, neu rhowch nhw yn eich bin olwyn du. Lapiwch yr eitemau hyn yn ddiogel mewn hen bapur newydd neu bapur cegin, neu eu bagio'n ddwbl, i sicrhau nad yw ein criwiau'n cael eu hanafu wrth eu casglu.

Rydym yn casglu eich **poteli a jariau gwydr** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Cardfwrdd



**Bocs Ailgylchu du neu werdd 2**




### ✔ Ia, plîs

- ✔ Bocsys cardfwrdd, fel y rhai sy'n dal grawnfwyd brecwast, cacennau, tabledi peiriant golchi llestri, esgidiau, hancesi papur, pethau ymolchi a phast dannedd
- ✔ Tiwbiau papur toiled
- ✔ Cartonau wyau
- ✔ Darnau cerdyn dros becyn bwyd, gan gynnwys prydau parod a nwyddau aml-becyn
- ✔ Cardiau cyfarch heb fathodynnau, bwâu, ffoil, llwch llachar na rhubanau
- ✔ Cefnau cardfwrdd o becynnau batris a brwsys dannedd
- ✔ Bocsys danfon nwyddau ar-lein ac amlenni cardfwrdd
- ✔ Cartonau bwyd a diod, fel Tetra Pak
- ✔ Papur brown a llwyd

### ✘ Dim diolch

- ✘ Cardiau cyfarch sydd â bathodynnau, bwâu, ffoil, llwch llachar neu rubanau na ellir eu tynnu *
- ✘ Polystyren *

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin olwyn du.


### Cofiwch:

- torri a gwasgu cardfwrdd yn fflat i sicrhau ei fod yn ffitio yn eich bocs
- gosodwch y caead 'cap cawod' ar eich bocs i atal ei gynnwys rhag dianc ac i gadw pethau mor sych â phosibl
- ewch ag unrhyw gardfwrdd nad yw'n ffitio yn eich bocs i'ch Canolfan Ailgylchu leol

Rydym yn casglu eich **cardfwrdd** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Papur



**Bocs Ailgylchu du neu werdd 1**




### Ia, plîs

- ✔ Llythyrau
- ✔ Amlenni, gydag a heb ffenestri
- ✔ Cylchgronau
- ✔ Papurau newydd
- ✔ Llyfrynnau a chatalogau
- ✔ Papur argraffydd
- ✔ Symiau bach o bapur wedi'i rwygo, fel derbynebau a biliau'r cartref – rhowch hwn mewn cynhwysydd wedi'i wneud o gerdyn neu bapur, os gwelwch yn dda, fel bag papur brown neu wyn, yna'i roi yn eich bocs

### Cofiwch:

- gosodwch y caead 'cap cawod' ar eich bocs i atal ei gynnwys rhag dianc ac i gadw pethau mor sych â phosibl

### Dim diolch


- ✘ Papur cegin, tyweli papur neu hancesi papur *
- ✘ Cardiau crafu *
- ✘ Papurau gludiog, fel labeli gludiog neu dâp papur *
- ✘ Papur wal *
- ✘ Ffilm blastig, fel sy'n lapio cylchgronau (gweler tudalen 16)

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin olwyn du.

Rydym yn casglu eich **papur** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Batris o'r cartref




**Bag porffor**




### ✔ Ia, plîs

- ✔ Batris o'r cartref fel rhai AAA, AA, B, C, D, DD a 9V
- ✔ Batris 'botwm' lithiwm-ïon, fel y rhai a ddefnyddir mewn cyfrifianellau, dyfeisiau cymorth clyw ac watshis
- ✔ Batris symudadwy o e-sigaréts a fêps - os oes angen i chi gael gwared ar e-sigaréts neu fêps, gweler tudalen 12

### ✘ Dim diolch

- ✘ Batris y gellir eu gwefru o liniaduron, ffonau symudol, twls trydan neu sugnwyr llwch *
- ✘ Batris ceir *
- ✘ Teclynnau gwefru batris *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

### Cofiwch:

- clymu'ch bag yn ddiogel i atal ei gynnwys rhag dianc ac i gadw eitemau mor sych â phosibl
- gosod eich bag ar neu wrth ymyl eich bocsys ailgylchu ar eich diwrnod casglu
- os oes angen mwy o fagiau porffor arnoch, gallwch eu harchebu ar-lein neu eu casglu o adeiladau'r cyngor

Rydym yn casglu eich **batris o'r cartref** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Eitemau trydanol bach




**Bagiau plastig eich hun**



### ✔ Ia, plîs

- ✔ Tegellau
- ✔ Sychwyr gwallt
- ✔ Tostwyr
- ✔ Tŵls trydan
- ✔ Radios
- ✔ Heyrn smwddio
- ✔ E-sigaréts a fêps - os oes angen i chi gael gwared ar fatris symudadwy o e-sigaréts neu fêps, gweler tudalen 11

### Cofiwch:

- ni ddylai'r eitemau fod yn fwy na thegell neu dostiwr
- clymu'ch bag yn ddiogel i atal ei gynnwys rhag dianc ac i gadw eitemau mor sych â phosibl
- gosod eich bag ar neu wrth ymyl eich bocsys ailgylchu ar eich diwrnod casglu

### ✘ Dim diolch

- ✘ Setiau teledu *
- ✘ Sugnwyr llwch *
- ✘ Microdonau *
- ✘ Horsys dillad trydanol *
- ✘ Offer trydanol gwyn, fel oergelloedd neu rewgelloedd **


* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

** Archebwch gasgliad gwastraff swmpus am ddim (gweler tudalen 17).

Rydym yn casglu eich **eitemau trydanol bach** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Tecstilau




**Bagiau plastig eich hun**



### ✔ Ia, plîs

- ✔ Dillad oedolion a phlant
- ✔ Esgidiau
- ✔ Bagiau llaw
- ✔ Beltiau
- ✔ Cyrtens
- ✔ Dillad gwely

### ✘ Dim diolch

- ✘ Duvets neu gwiltiau *
- ✘ Gobennydd *
- ✘ Sachau cysgu *
- ✘ Wadin tu mewn clustogau *
- ✘ Carpedi *

* Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

### Cofiwch:

- sicrhewch fod tecstilau'n lân a sych, ac esgidiau mewn parau
- clymu'ch bag yn ddiogel i atal ei gynnwys rhag dianc ac i gadw eitemau mor sych â phosibl
- gosod eich bag ar neu wrth ymyl eich bocsys ailgylchu ar eich diwrnod casglu

Rydym yn casglu eich **tecstilau** o'ch cartref **bob wythnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Gwastraff gardd



**Sach werdd ailddefnyddiadwy**



### Ia, plîs

- ✔ Gwair, dail a'r rhan fwyaf o fathau o chwyn
- ✔ Planhigion a blodau
- ✔ Tocion llwyni a gwrychoedd
- ✔ Canghennau, brigau, sglodion pren a rhisgl
- ✔ Deunydd gwely a ddefnyddir gan anifeiliaid anwes nad ydynt yn bwyta cig

### Cofiwch:

- rydym yn casglu gwastraff gardd rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd
- cewch fynd â'ch gwastraff gardd i'ch Canolfan Ailgylchu leol gydol y flwyddyn

### Dim diolch

- ✘ Gwastraff bwyd *
- ✘ Baw anifeiliaid **
- ✘ Deunydd gwely a ddefnyddir gan anifeiliaid anwes sy'n bwyta cig **
- ✘ Pridd, cerrig neu foncyffion ***
- ✘ Unrhyw ddodrefn gardd, boed yn blastig neu bren ***
- ✘ Chwyn ymledol, fel clymog Japan neu lysiau'r gingroen ****

* Rhowch yr eitemau hyn yn eich cadi glas.

** Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin olwyn du.

*** Ewch a'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

**** Trefnwch i gontractwr arbenigol gasglu hwn a'i waredu'n ddiogel.

Rydym yn casglu eich **gwastraff gardd** o'ch cartref **bob pythefnos**,
rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

## Beth sy'n mynd i ble?

# Gwastraff na ellir ei ailgylchu



Bin olwyn du




### ✔ Ia, plîs

✔ Yr holl wastraff cartref sy'n weddill na ellir ei ailgylchu, fel polystyren

Os oes angen i chi gael gwared ar unrhyw **fagiau a deunydd lapio plastig**, ewch i dudalen 16 i weld sut gallwch eu hailgylchu mewn mannau ailgylchu 'oddi cartref' mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd.

### ✘ Dim diolch

✘ Unrhyw eitemau y gellir eu hailgylchu o gartref gan ddefnyddio'r cynwysyddion a ddarperir gan y Cyngor – gan gynnwys gwastraff bwyd – neu'r pethau y gellir eu hailgylchu yn eich Canolfan Ailgylchu leol am ddim

### Cofiwch:

- peidiwch â rhoi gwastraff ychwanegol wrth ymyl, neu ar ben, eich bin olwyn du. Gelwir hyn yn 'wastraff ochr'. Nid ydym yn casglu 'gwastraff ochr' ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy

Rydym yn casglu eich **gwastraff na ellir ei ailgylchu** o'ch cartref **bob pythefnos**.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

# Beth sy'n mynd i ble?

## Beth ddylwn ei wneud â bagiau a deunydd lapio plastig?

Os oes angen i chi gael gwared ar unrhyw **fagiau neu ddeunydd lapio plastig**, mae rhai o'r eitemau hyn yn cael eu derbyn mewn **mannau ailgylchu 'oddi cartref'** mewn lleoliadau fel archfarchnadoedd.

Ewch i **cymruynailgylchu.org.uk** i ddod o hyd i'ch cyfleuster agosaf.

Gall y mathau o eitemau a dderbynnir amrywio rhwng gwahanol leoliadau, felly dilynwch y canllawiau a ddarperir gan y sefydliad sy'n rheoli'r man ailgylchu.




**Bagiau plastig a bagiau am oes**




**Bagiau parod o ffrwythau, salad a llysiau**



**Bagiau plastig tenau ar gyfer ffrwythau, salad a llysiau**



**Ffilm, fel ffilm glynu, caeadau prydau parod a chaeadau potiau iogwrt**




**Bagiau rhewgell**




**Bagiau bwyd rhewgell**




**Bagiau pasta a reis**




**Bagiau bara**



**Bagiau lapio cylchgronau a phapurau newydd**




**Pecynnau aml-becyn a dolenni sy'n dal poteli a chaniau**



**Bagiau leinio bocsys grawnfwyd**




**Deunydd lapio pecynnau papur toiled a phapur cegin**



**Bagiau sychlanhau a bagiau sy'n gorchuddio dillad newydd**




**Bagiau parseli a swigod lapio**



**Bagiau bwyd anifeiliaid**




**Pecynnau creision a deunydd lapio bisgedi**



**Pecynnau ffoil wedi'i lamineiddio sy'n dal bwyd a diod, fel y rhai sy'n dal coffi, sudd, reis, bwyd babanod a bwyd anifeiliaid anwes**

Os na allwch fynd â'r eitemau hyn i fan ailgylchu 'oddi cartref', **rhowch nhw yn eich bin olwyn du.**



**Peidiwch â'u rhoi yn eich sach las ailddefnyddiadwy** gyda'ch poteli, potiau, tybiau a thiwbiau plastig.



# Pa wasanaethau neu gefnogaeth arall ydych chi'n eu cynnig?

## Casgliadau gwastraff swmpus



Os oes gennych chi eitemau mawr ac offer cartref nad oes mo'u hangen arnoch mwyach ac na allwch ymweld ag un o'n Canolfannau Ailgylchu, cewch drefnu casgliad gwastraff swmpus.

Rydym yn casglu eitemau metel mawr ac offer trydanol gwyn, fel oergelloedd a rhewgelloedd, am ddim. Rydym yn codi ffi am gasglu mathau eraill o eitemau.

Am ragor o wybodaeth neu i drefnu casgliad, ewch i'n gwefan
**www.merthyr.gov.uk/ailgylchu**

## Ymweliadau cartref gan Swyddog Ailgylchu



Mae gennym dîm o Swyddogion Ailgylchu a all roi cyngor ac arweiniad i chi ynglŷn â'n holl wasanaethau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu. Byddan nhw'n eich cefnogi i ailgylchu cymaint â phosib a lleihau eich gwastraff na ellir ei ailgylchu drwy eich helpu i sortio eich gwastraff yn gywir.

## Ailddefnyddio eich eitemau diangen

Os oes gennych eitemau diangen sydd mewn cyflwr da neu resymol, ewch â nhw i 'A New Lease of Life', ein siop ailddefnyddio ym Mhentrebach. Bydd ein tîm yn sicrhau bod yr eitemau rydych chi'n eu rhoi yn ddiogel ac mewn cyflwr gweithio da cyn eu rhoi ar werth i gefnogi elusen leol. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.merthyr.gov/ailgylchu** Gallwch hefyd roi eitemau i'ch siop elusen leol.


## Canolfannau Ailgylchu



Cewch ailgylchu llawer o wahanol ddeunyddiau yn eich Canolfan Ailgylchu leol nad ydym yn gallu eu casglu o'ch cartref fel rhan o'n gwasanaethau casglu ailgylchu wythnosol, fel dillad gwely a matresi, eitemau trydanol mawr, plastrfwrdd, CDs, carpedi, olew, poteli nwy a rwbel.

**Sylwer:** Os ewch chi ag unrhyw fagiau o wastraff na allir ei ailgylchu i'ch Canolfan Ailgylchu leol, byddwn yn gofyn i chi eu hagor i wneud yn siŵr mai dim ond gwastraff na ellir ei ailgylchu sydd ynddyn nhw. I gael gwybodaeth am eich Canolfan Ailgylchu leol, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth y mae ei angen cyn i chi ymweld, ewch i'n gwefan.

## Trwsio eich eitemau sydd wedi torri



Os oes gennych eitem wedi torri, fe allech chi ddod o hyd i fusnes atgyweirio lleol trwy ein cyfeiriadur atgyweirio ar-lein, **repaircafewales.org/cy**

Mae'r wefan hon hefyd yn caniatáu ichi chwilio am ddigwyddiadau yn eich ardal chi lle gallech gael trwsio eich eitem wedi torri am ddim gan wirfoddolwyr.

Drwy drwsio eich eitemau yn lle prynu rhai newydd, rydych chi'n lleihau eich allyriadau carbon ac yn helpu i atal newid hinsawdd, yn ogystal ag arbed arian.

## Casgliadau â chymorth



Os nad ydych chi'n gallu rhoi eich ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu allan i ni ei gasglu, dros dro neu'n barhaol, oherwydd cyfyngiad ar eich symudedd ac nad oes unrhyw un arall i'ch helpu chi, fe gewch chi wneud cais am 'gasgliad â chymorth' ac fe wnawn ni asesu eich sefyllfa.

'Casgliad â chymorth' yw pan fydd ein criwiau'n casglu eich gwastraff ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu o bwynt casglu y cytunwyd arno.

# Cwestiynau cyffredin

## Beth sy'n digwydd i fy ailgylchu ar ôl i chi ei gasglu?

Yn 2023/24, arhosodd 49% o'r ailgylchu a gasglwyd gennym ym Merthyr Tudful yng Nghymru, aeth 34% i fannau eraill yn y Deyrnas Unedig, a 17% aeth dramor.

I gael gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd i'ch ailgylchu ar ôl i ni ei gasglu, a ble mae pob deunydd ar wahân yn mynd, ewch i **myrecyclingwales.org.uk/cy**

I ddarganfod beth mae eich ailgylchu yn cael ei droi i mewn iddo, ewch i **www.cymruynailgylchu.org.uk**

## Beth sy'n digwydd os oes gen i fwy o ailgylchu nag sy'n ffitio yn fy nghynwysyddion?

Os oes gennych chi yn aml fwy o ailgylchu nag y gallwch chi ei ffitio yn eich cynwysyddion, fe gewch chi archebu rhai ychwanegol drwy ymweld â'n gwefan neu gysylltu â ni, a byddwn ni'n eu danfon i'ch cartref.

Fel arall, os mai dim ond yn achlysurol y bydd gennych fwy o ailgylchu nag y gallwch eu ffitio yn eich cynwysyddion, cadwch yr eitemau hyn tan eich diwrnod casglu nesaf, neu ewch â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn manteisio i'r eithaf ar y lle yn eich cynwysyddion, trwy falu neu wasgu eitemau metal, plastig a chartonau yn ddiogel pan fo modd, a thorri cardfwrdd fel ei fod yn ffitio yn y bocs.

## Ga i gynhwysydd ychwanegol ar gyfer fy ailgylchu?

Cewch. Os oes gennych chi fwy o ailgylchu'n rheolaidd nag y gallwch chi ei ffitio yn eich cynwysyddion, fe gewch chi archebu rhai ychwanegol drwy ymweld â'n gwefan neu gysylltu â ni, a byddwn ni'n eu danfon i'ch cartref.

Gallwch hefyd archebu caeadau newydd ar gyfer eich bocsys a'ch cadis.

## Dim ond ychydig bach o ailgylchu rwy'n ei gynhyrchu. Beth ddylwn i ei wneud?

Os mai dim ond ychydig bach o ailgylchu rydych chi'n ei gynhyrchu, does dim rhaid i chi roi eich cynwysyddion allan bob wythnos. Fodd bynnag, os gwelwch yn dda, ceisiwch osgoi cyflwyno eich cynwysyddion dim ond pan fod nhw'n drwm iawn, gan y gall hyn ei gwneud yn anniogel i'n gweithwyr ei drin a gall eu hatal rhag gallu casglu eich ailgylchu.

Os oes gennych unrhyw anghenion penodol neu bryderon ynghylch hygyrchedd, cysylltwch â ni i drafod eich opsiynau.

# Cwestiynau cyffredin

## Beth sy'n digwydd os oes gen i fwy o wastraff na ellir ei ailgylchu nag y gallaf ei ffitio yn fy min olwyn du?

Os ydych chi'n ailgylchu cymaint ag y gallwch chi bob wythnos, dylech chi gael digon o le yn eich bin olwyn du ar gyfer eich gwastraff na ellir ei ailgylchu sy'n weddill.

Rhaid i chi sicrhau bod eich holl wastraff yn ffitio yn eich bin olwyn du, a rhaid i gaead eich bin gau'n llwyr.

Os mai dim ond yn achlysurol y bydd gennych fwy o wastraff nag y gallwch eu ffitio yn eich bin, cadwch yr eitemau hyn tan eich diwrnod casglu nesaf, neu ewch â nhw i'ch Canolfan Ailgylchu leol.

Os oes gennych chi fwy o wastraff yn rheolaidd nag y gallwch chi ei roi yn eich bin, ac rydych chi'n ailgylchu popeth y gallwch chi, cysylltwch â ni.

Cofiwch beidio â rhoi gwastraff ychwanegol wrth ymyl, nac ar ben, eich bin. Gelwir hyn yn 'wastraff ochr'. Nid ydym yn casglu 'gwastraff ochr' ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy.

## Beth ddylwn i ei wneud os oes angen cynhwysydd newydd arnaf i ar gyfer fy ailgylchu neu wastraff na ellir ei ailgylchu, neu gynhwysydd yn lle hen un?

Fe gewch chi archebu cynhwysydd ychwanegol drwy ymweld â'n gwefan neu gysylltu â ni, ac fe wnawn ni ddanfon un i'ch cartref.

## Beth ddylwn i ei wneud os oes angen mwy o fagiau leinio cadi gwastraff bwyd arnaf?

Os oes angen mwy o fagiau leinio cadi gwastraff bwyd arnoch, clymwch un i handlen eich cadi awyr agored ar eich diwrnod casglu, ac fe wnawn ni adael rholyn newydd ar neu wrth ymyl eich cadi.

Gallwch hefyd eu harchebu ar-lein neu eu casglu o adeiladau'r cyngor, gan gynnwys y Ganolfan Ddinesig, adeiladau dinesig lleol, canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, Canolfannau Ailgylchu, Hwb Canol y Dref, a'r Siop Ailddefnyddio ('A New Lease of Life').

## Pam eich bod wedi casglu rhywfaint o fy ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu, ond nid y cwbl?

Rydym yn casglu eich gwastraff bwyd a'ch ailgylchu bob wythnos. Rydym yn casglu eich gwastraff gardd (o fis Ebrill i fis Tachwedd) a gwastraff na ellir ei ailgylchu bob pythefnos. Ar gyfer rhai cartrefi, mae'r casgliadau hyn yn digwydd ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos. I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

Os byddwch chi'n rhoi eitemau mewn cynhwysydd ailgylchu nad ydym ni'n ei dderbyn ar hyn o bryd, byddwn ni'n gadael yr eitemau ac yn rhoi tag ar y cynhwysydd yn egluro pam.

Os ydych chi wedi rhoi gwastraff na ellir ei ailgylchu ychwanegol wrth ymyl, neu ar ben, eich bin olwyn du, gelwir hyn yn 'wastraff ochr'. Nid ydym yn casglu 'gwastraff ochr' ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy.

Os oes angen i chi roi gwybod am gasgliad a fethwyd, gwnewch hynny'r diwrnod ar ôl eich diwrnod casglu arferol, rhag ofn mai rhedeg yn hwyr ydyn ni.

# Cwestiynau cyffredin

## Pam nad ydych chi wedi casglu fy ailgylchu na gwastraff na ellir ei ailgylchu o gwbl?

Os nad ydym wedi casglu eich ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu erbyn noson eich diwrnod casglu arferol, edrychwch ar ein gwefan i gael gwybodaeth am unrhyw darfu posibl ar ein gwasanaethau casglu.

Os oes angen i chi roi gwybod am gasgliad a fethwyd, gwnewch hynny'r diwrnod ar ôl eich diwrnod casglu arferol, rhag ofn mai rhedeg yn hwyr ydyn ni.

## Beth arall alla i ei ailgylchu?

I ddarganfod pa wastraff arall o'r cartref y gallwch ei ailgylchu gartref, neu yn eich Canolfan Ailgylchu leol, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni i.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi'r eitemau anghywir yn fy nghynwysyddion ailgylchu yn ddamweiniol?

Mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi'r eitemau cywir yn y cynwysyddion cywir, ac nad yw eich cynwysyddion ailgylchu yn cynnwys eitemau na ellir eu hailgylchu o gartref. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall pawb wneud camgymeriad.

**Os byddwch chi'n rhoi eitem mewn cynhwysydd a ddylai fod wedi'i roi mewn un gwahanol** – fel can metel yn eich bocs ar gyfer cardfwrdd – bydd ein criwiau'n casglu'ch holl ailgylchu ac yn rhoi'r eitem anghywir yn y rhan cywir o'n cerbyd i sicrhau ei fod yn cael ei ailgylchu'n gywir. Fe fyddan nhw'n rhoi tag ar eich cynhwysydd yn dweud wrthych chi'r eitem rydych chi wedi'i rhoi yn y cynhwysydd anghywir, er mwyn ichi allu gwneud yn gywir y tro nesaf.

**Os byddwch chi'n rhoi eitem na allwn ni ei gasglu o'ch cartref ar hyn o bryd i'w ailgylchu mewn cynhwysydd** – fel bag plastig, neu badell neu sosban fetel – bydd ein criwiau'n casglu'r rhan fwyaf o'ch ailgylchu ond yn gadael yr eitem anghywir ar ôl. Fe fyddan nhw'n rhoi tag ar eich cynhwysydd yn gofyn i chi gael gwared ar yr eitem honno ac yn dweud wrthych chi sut i gael gwared arni'n gywir.

**Os byddwch chi'n rhoi eitem mewn cynhwysydd a allai fod yn beryglus i ni ei drin** – fel tanwyr, caniau nwy neu wastraff clinigol – ni fydd ein criwiau'n casglu unrhyw ran o'i gynnwys. Byddan nhw'n rhoi tag ar eich cynhwysydd yn gofyn i chi gael gwared ar yr eitem mewn pryd ar gyfer eich casgliad nesaf.

Os, ar ôl edrych ar y llyfryn hwn, nad ydych yn siŵr ble i roi eitemau penodol, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni am ragor o gymorth

Os byddwch chi'n sylweddoli eich bod chi wedi rhoi rhywbeth yn y cynhwysydd anghywir ar ôl i ni gasglu eich ailgylchu, peidiwch â phoeni – triwch gofio ei wneud yn gywir y tro nesaf.

Cofiwch hefyd dynnu'r tag oddi ar eich cynhwysydd, a'i roi yn eich bocs ailgylchu.

## Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn ailgylchu digon o fy ngwastraff?

Mae gennym dîm o Swyddogion Ailgylchu a all roi cyngor ac arweiniad i chi ynglŷn â'n holl wasanaethau ailgylchu a gwastraff. Os hoffech siarad ag aelod o'n tîm, neu drefnu iddynt ymweld â'ch cartref, cysylltwch â ni.


www.merthyr.gov.uk/ailgylchu

wasteservices@merthyr.gov.uk

01685 725000

CBSMerthyrTudful

@cbsmerthyrtudful


Argraffwyd ar bapur 100% eilgylch